# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU |
| **DYDDIAD:** | 21 MAWRTH 2005 |
| **ADRODDIAD GAN:** | Y TRYSORYDD |
| **TESTUN:** | ALLDRO AMCANOL 2004-2005 |

1. Mae'r atodlen sydd ynghlwm yn cynnwys manylion am yr alldro amcanol a amcangyfrifir am y flwyddyn ariannol 2004-2005. Mae'n dangos y bydd tanwariant o £839,364.

2. Cyflogau yw'r brif elfen yn y tanwariant o £926,460, ac mae hwnnw'n bennaf yn ymwneud ag ymladdwyr tân rhan amser. Mae hyn i'w briodoli i'r gostyngiad yn nifer y tanau a'r ffaith fod effaith cytundeb cyflog 2003 yn llai ar gyllideb yr ymladdwyr tân rhan amser nag a ragwelwyd ar y dechrau. Bydd yr aelodau hefyd yn ymwybodol o'r ffaith bod ariannu'r gyllideb ar gyfer ymladdwyr rhan amser wedi ei seilio ar sicrhau sefydliad cyflawn. Roedd hyn yn bur annhebygol, beth bynnag, ac wedi tueddu, yn y rhan fwyaf o flynyddoedd i arwain at danwariant.

3. Mae costau adeiladau yn dangos tanwariant o £72,460 sydd i'w briodoli yn bennaf i'r oedi gyda chaffael pencadlys newydd. Roedd y gyllideb wreiddiol yn cynnwys amcangyfrif o rent blwyddyn lawn tra mae'r rhagamcaniad cyfredol yn awgrymu na fydd yr adeilad ar gael tan y flwyddyn ariannol nesaf.

4. Mae'r amcangyfrif alldro ar gyfer Cludiant yn dangos y bydd gorwariant o £76,950, a hynny, yn bennaf, oherwydd bod costau yswiriant ar gyfer y cerbydau yn fwy na'r swm a ragwelwyd. Fodd bynnag, dan y pennawd Cyflenwadau a Gwasanaethau, mae cost Yswiriant Rhwymedigaeth Gyhoeddus yn £78,952 yn llai na'r ffigwr a amcangyfrifwyd. Felly, yn gyffredinol, mae cost yr yswiriant £36,817 yn llai na'r ffigwr a amcangyfrifwyd.

5. Yn 2004-2005 cynyddwyd y gyllideb ar gyfer lifrai er mwyn hwyluso'r newid i'r lifrai steil newydd. Cafodd yr archebion am y lifrai newydd eu hanfon, ond yn anffodus, oherwydd problemau gyda'r cynhyrchu, ni fydd y cyfan ohonynt ar gael cyn 31 Mawrth 2005, a chanlyniad hynny yw tanwariant o £100,930 yn y gyllideb lifrai yn 2004–2005. Er mwyn ariannu cost y lifrai fydd yn cael eu cyflenwi yn y flwyddyn ariannol newydd bydd angen creu Darpariaeth ar gyfer Lifrai o £95,000 o'r tanwariant.

6. Yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ar 20 Rhagfyr 2004 cytunwyd y byddai £500,000 o'r tanwariant o 2004-2005 yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r cynnydd yn y gyllideb ar gyfer 2005–2006. Yn ogystal, bydd angen, fel y nodwyd yn y paragraff blaenorol, i neilltuo Darpariaeth ar gyfer Lifrai o £95,000. Oddi isod cynigir opsiynau i'r Aelodau ar sut i ymdrin â balans y tanwariant, sef oddeutu £240,000.

7. Un opsiwn ar gyfer balans y tanwariant fyddai ei ddychwelyd i'r Awdurdodau Cyfansoddol. Mae'r tabl isod yn dangos y symiau a fyddai'n daladwy i bob Awdurdod, yn seiliedig ar ad-daliad o £240,000. Mae'r swm a fyddai'n daladwy i bob Awdurdod yn seiliedig ar lefel eu cyfraniad yn 2004-2005, a oedd wedi'i seilio ar yr Amcangyfrifon Poblogaeth Canol y Flwyddyn yn 2002.

| Awdurdod | Amcangyfrif poblogaeth canol y flwyddyn 2002 | Ad-daliad a amcangyfrifir £ |
|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 110,500 | 39,683 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 67,700 | 24,312 |
| Cyngor Gwynedd | 117,200 | 42,089 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 94,300 | 33,865 |
| Cyngor Sir y Fflint | 149,300 | 53,617 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 129,300 | 46,434 |
| CYFANSWM | 668,300 | 240,000 |

8. Opsiwn arall y gallai'r Aelodau ei ystyried fyddai i'r Awdurdod Tân gadw'r arian. Mae'r Prif Swyddog Tân wedi awgrymu y gellid defnyddio'r tanwariant i sefydlu darpariaeth i gyllido canlyniad y penderfyniadau a wneir dan y Cynllun Integredig Rheoli Risg. Un esiampl posibl fyddai addasu Gorsaf Dân Y Rhyl a'i gwneud yn Orsaf Dân Gymunedol.

**9. ARGYMHELLION**

**(i) Bod y £95,000 o danwariant 2004-2005 yn cael eu rhoi o'r neilltu i greu Darpariaeth ar gyfer Lifrai.**

**(ii) Bod unrhyw danwariant dros £595,000 yn 2004-2005 yn cael ei ddychwelyd i'r Awdurdodau Cyfansoddol. Byddai'r swm sy'n daladwy i bob Awdurdod yn seiliedig ar amcangyfrifon Poblogaeth Canol y Flwyddyn 2002.**

**neu**

**(iii) Bod unrhyw danwariant o fwy na £595,000 yn 2004–2005 yn cael ei ddefnyddio i sefydlu darpariaeth ar gyfer cyllido prosiectau sy'n ganlyniad penderfyniadau a wnaed dan y Cynllun Risg.**

K W Finch

**Trysorydd**

**2 Mawrth 2005**